Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Polisi ar ofynion cofrestru ar gyfer cartrefi gofal oedran cymysg

Polisi ar y gofynion ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal sy'n gofalu am blant ac oedolion yn yr un lleoliad.

**Cyhoeddwyd:** 19 Mawrth 2026 **Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Mawrth 2026

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/polisi-ar-ofynion-cofrestru-ar-gyfer-cartrefi-gofal-oedran-cymysg** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.

## Cynnwys


- 1. Diben
- 2. Cwmpas
- 3 Monitro a Gorfodi

# 1. Diben

Mae'r polisi hwn yn nodi dull AGC o fonitro cartrefi gofal sy'n cefnogi plant (0–17 oed) ac oedolion ifanc (18+ oed) yn yr un lleoliad ar ôl i **Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (https://cyfraith.llyw.cymru/deddf-iechyd-gofal-cymdeithasol-cymru-2025)** (“Deddf 2025”) ddod i rym ar 1 Ebrill 2026.

# 2. Cwmpas

## 2.1. Gwasanaeth plant o dan gyfyngiad

Mae Deddf 2025 yn diffinio “gwasanaeth plant o dan gyfyngiad” fel:

- gwasanaeth cartref gofal i’r graddau y mae’r gwasanaeth yn wasanaeth cartref plant (a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant),
- gwasanaeth maethu, neu
- gwasanaeth llety diogel,

ac yn cyflwyno cyfyngiadau i'r gwasanaethau hyn mewn ffordd raddol os cânt eu darparu gan endid cyfreithiol er-elw (a gofrestrwyd neu a wnaeth gais i gofrestru cyn 1 Ebrill 2026).

**O 1 Ebrill 2026:**

- Ni fydd unrhyw ddarparwyr er-elw newydd yn gallu cofrestru i ddarparu “gwasanaeth plant o dan gyfyngiad” yng Nghymru ac ni fydd darparwyr er-elw sy'n bodoli eisoes yn gallu amrywio eu cofrestriad i ychwanegu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad.

**O 1 Ebrill 2027:**

- Ni fydd darparwyr gwasanaeth plant o dan gyfyngiad er-elw sy'n bodoli eisoes yn gallu cynyddu uchafswm capasiti'r gwasanaeth/ni fydd gofalwyr maeth newydd yn cael eu cymeradwyo.

**Erbyn 1 Ebrill 2030:**

- Ni fydd mwy o blant yn cael eu lleoli mewn gwasanaethau plant o dan gyfyngiad er-elw oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r lleoliad drwy'r broses gwneud cais am leoliad atodol newydd, gan gynnwys lleoliadau o awdurdodau lleol yn Lloegr, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Mae'r newidiadau hyn yn creu gwahaniaeth pwysig iawn rhwng darparwyr sy'n darparu gwasanaeth cartref gofal mewn lleoliadau lle mae'r ddarpariaeth i oedolion a'r rhai sy'n darparu'r gwasanaeth mewn lleoliadau lle mae'r ddarpariaeth i blant.

O 1 Ebrill 2026, ni fydd yr is-math o wasanaeth "Cartref gofal i oedolion a phlant" yn bodoli mwyach yn AGC. Bydd yn rhaid i ddarparwyr ddatgan, ar gyfer pob lleoliad unigol lle maent yn darparu gwasanaeth cartref gofal, a ydynt:

- yn gartref gofal i blant – gwasanaeth cartref plant (yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant (0-17) (endidau cyfreithiol nid-er-elw yn unig), neu
- yn gartref gofal i oedolion – yn bwriadu darparu gwasanaethau i oedolion (18 oed neu'n hŷn) yn bennaf

Bydd darparwyr yn gallu dewis o amrywiaeth o anghenion gwasanaeth i allu disgrifio i bwy y maent yn darparu gwasanaeth.

#### Enghraifft 1

Bydd gwasanaeth sy'n bwriadu darparu cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, ond a fydd o bosibl yn darparu gofal i rai oedolion ifanc hefyd, yn cael ei gategoreiddio fel **Cartref gofal i blant** a bydd yn dewis yr amrywiaeth o anghenion y mae'n darparu ar eu cyfer gan gynnwys 'gofal i blant â rhai oedolion iau (hyd at 25 oed)'

#### Enghraifft 2

Bydd gwasanaeth sy'n bwriadu darparu cartref gofal yn bennaf i oedolion, ond a fydd o bosibl yn darparu gofal i rai plant hefyd, yn cael ei gategoreiddio fel **Cartref gofal i oedolion** a bydd yn dewis yr amrywiaeth o anghenion y mae'n darparu ar eu cyfer gan gynnwys 'gofal i blant.'

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y bydd AGC yn rheoli sefyllfaoedd lle bydd y cydbwysedd rhwng nifer y plant a'r oedolion sy'n byw mewn cartref gofal yn newid.

# 3 Monitro a Gorfodi

## 3.1. Cartrefi gofal oedran cymysg sy'n bodoli eisoes a ddarperir gan ddarparwr 'er-elw' o 1 Ebrill 2026

#### Senario A

Os bydd darparwr er-elw, ar 1 Ebrill 2026, yn darparu '**Cartref gofal i blant**' a bydd ei ddatganiad o ddiben yn nodi ei fod hefyd yn darparu gofal i rai oedolion ifanc hyd at 25 oed, fel gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, bydd y darparwr yn destun y cyfyngiadau y mae'r Ddeddf yn eu cyflwyno o 1 Ebrill 2026 ymlaen, a bydd hyn yn cael ei ddangos ar gyfeiriadur AGC.

Os bydd y garfan o bobl yn y cartref gofal hwnnw yn newid yn ddiweddarach ac, felly, bydd y cartref gofal yn gofalu am fwy o oedolion ifanc na phlant dros gyfnod o 12 mis

- Rhaid i'r darparwr roi gwybod i AGC am y cynllun i ddatrys yr amrywiad e.e. cynlluniau symud ymlaen i oedolion ifanc a allai gynnwys terfynu eu haddysg cyn symud er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn gyson â'r datganiad o ddiben.
- Os na fwriedir i'r newid fod yn un parhaol, ni fydd angen cymryd camau pellach.
- Os bwriedir i'r newid fod yn un parhaol:
  - Rhaid i'r darparwr newid y Datganiad o Ddiben i ddangos ei fod bellach yn bwriadu darparu'r gwasanaeth cartref gofal, yn y lleoliad hwnnw, yn bennaf i oedolion.
  - Gan nad yw'r darparwr yn darparu, nac yn bwriadu darparu, gwasanaeth cartref plant yn y lleoliad hwnnw mwyach, bydd AGC yn diweddaru'r gofrestr i ddangos nad yw'r darparwr yn destun cyfyngiadau Deddf 2025 mwyach
  - Mae'n bwysig nodi pe bai'r darparwr er-elw yn penderfynu'n ddiweddarach ei fod am ailddechrau darparu gwasanaeth cartref plant yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant yn y lleoliad hwnnw, ni fyddai'n gallu gwneud hynny oni bai ei fod yn sefydlu endid nid-er-elw ar wahân sy'n bodloni gofynion adran 6A, ac yn cofrestru'r endid newydd hwn ag AGC, cyn trosglwyddo'r gwasanaeth i'r endid newydd.

#### Senario B

Os bydd darparwr er-elw, ar 1 Ebrill 2026, yn darparu o leiaf un **Cartref gofal i oedolion** (yn bennaf i oedolion) a bydd ei ddatganiad o ddiben yn nodi ei fod hefyd yn darparu gofal i rai plant, ni chaiff ei ystyried yn wasanaeth cartref plant. Os bydd y garfan o breswylwyr yn newid yn ddiweddarach ac, felly, bydd y darparwr yn gofalu am fwy o blant nag oedolion dros gyfnod o 12 mis, bydd y canlynol yn berthnasol.

**Os bydd y newid yn un parhaol:**

- Byddem yn ystyried bod y darparwr yn gweithredu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad ac yn torri'r gofyniad nid-er-elw. Byddai hyn yn golygu na fyddai'n gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth oni bai ei fod yn sefydlu endid nid-er-elw ar wahân sy'n bodloni gofynion adran 6A o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac yn trosglwyddo'r cartref gofal ar gyfer gwasanaeth plant i'r endid newydd hwn.
- Rhaid cyflwyno cais i gofrestru'r endid cyfreithiol 'nid-er-elw' newydd hwn.
- Byddai angen i'w Ddatganiad o Ddiben ddangos ei fod yn bwriadu darparu gwasanaeth cartref plant (yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant).
- Unwaith y bydd wedi'i gofrestru, bydd ei gofrestriad yn destun amodau yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi gwybod i AGC os na fydd yn bodloni gofynion adran 6A (gofynion nid er elw) mwyach, a byddai hyn yn cael ei nodi yng nghyfeiriadur gwasanaethau AGC.

**Os na fydd y newid yn un parhaol:**

Os na fydd y darparwr yn bwriadu i'r trefniant hwn fod yn un parhaol a bod y sefyllfa bresennol yn amrywiad dros dro a'i fod yn awyddus i ofalu am oedolion yn bennaf o hyd, yna bydd yn gweithredu y tu allan i delerau ei ddatganiad o ddiben ac ni fydd yn bodloni gofynion adran 6A i fod yn endid nid-er-elw. Y rheswm dros hyn yw y byddai'r cartref gofal, gan ei fod yn gofalu am blant yn bennaf ar yr adeg honno, yn cael ei ystyried yn wasanaeth cartref plant (sy'n wasanaeth plant o dan gyfyngiad). Yn y sefyllfa hon, mae'r canlynol yn berthnasol.

- Bydd AGC yn canfod beth yw cynlluniau'r darparwr i unioni'r anghydbwysedd o ran nifer yr oedolion a'r plant, a bydd hyn yn cynnwys trafodaeth am amserlenni. Bydd AGC yn sicrhau bod yr amserlenni i ymdrin â'r mater yn rhesymol, yn deg ac yn gymesur, a disgwylir i hyn ddigwydd o fewn 6 mis fel arfer.
- Bydd AGC yn monitro'r sefyllfa hon. Mae'n bosibl y bydd AGC yn gosod amodau ar gofrestriad y darparwr mewn perthynas â'r lleoliad dan sylw i atal derbyniadau a fyddai'n rhwystro'r sefyllfa rhag cael ei hunioni.
- Os **na fydd y darparwr yn cyflawni hyn o fewn yr amserlen y cytunwyd arni,** bydd AGC yn rhoi gwybod i'r darparwr ei fod bellach yn gweithredu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad ac felly'n torri'r gofynion nid-er-elw, ac y gallai fod yn destun camau gorfodi gan gynnwys amrywio ei gofrestriad i ddileu'r gwasanaeth yn y lleoliad hwnnw.
- Os bydd darparwr yn dweud ei fod yn bwriadu sefydlu endid nid-er-elw newydd sy'n bodloni gofynion adran 6A o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a throsglwyddo'r gwasanaeth cartref gofal i'r endid hwnnw, gall AGC ystyried hynny wrth benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd. Byddai'n rhaid i'r

darparwr gyflwyno cais i AGC i gofrestru'r endid nid-er-elw newydd.

- Os na fydd y darparwr yn bwriadu trosglwyddo'r cartref gofal i endid nid-er-elw o gwbl neu o fewn cyfnod rhesymol o amser, bydd AGC yn ystyried yr amrywiaeth lawn o opsiynau gorfodi, ac yn mabwysiadu dull gweithredu priodol. Gallai hyn gynnwys gosod amodau ar gofrestriad y darparwr i'w atal rhag derbyn unrhyw leoliadau plant newydd, rhoi hysbysiad o gynnig yn rhoi gwybod iddo fod AGC yn bwriadu canslo neu amrywio ei gofrestriad i ddileu'r gwasanaeth hwnnw, neu erlyn y darparwr am weithredu gwasanaeth heb fod wedi'i gofrestru yn unol â Phennod 2 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gan dorri adran 5 o'r Ddeddf honno.

## 3.2. Pob cofrestriad cartref gofal newydd a gaiff ei gofrestru o 1 Ebrill 2026

Bydd pob cofrestriad newydd ar gyfer gwasanaeth plant o dan gyfyngiad ar ôl 1 Ebrill 2026 yn un o'r 4 endid cyfreithiol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ac ni fydd cyfyngiadau arnynt. Os bydd darparwr yn dewis newid i ddarparu gofal i fwy o oedolion na phlant, a hynny a'r sail barhaol, dylai gyflwyno datganiad o ddiben i adlewyrchu'r newid.

Ni fydd yn ofynnol i bob cais i gofrestru cartref gofal i oedolion lle mae'r darparwr hefyd yn bwriadu darparu gofal i rai plant fod yn endid cyfreithiol nid-er-elw, ond rhaid i ddarparwyr fod yn ymwybodol y byddant yn destun yr un dull gorfodi â'r hyn a amlinellir yn Senario B yn adran 3.1 uchod os bydd y garfan o bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn newid yn barhaol fel eu bod wedyn yn darparu'r gwasanaeth yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/polisi-ar-ofynion-cofrestru-ar-gyfer-cartrefi-gofal-oedran-cymysg** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.